# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2 a Chynhadledd Fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Ionawr 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30-12.10)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

### 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

**2.1 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

Strategaeth Bwyd Cymunedol (Saesneg yn unig)

**2.2 Llythyr gan Weinidog yr Economi**

(Tudalennau 3 - 5)

**Dogfennau atodol:**

Cronfa Codi'r Gwastad a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Busnes at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 6 - 9)

**Dogfennau atodol:**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl)

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gadeirydd y Pwyllgor Busnes

**2.4 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

(Tudalennau 10 - 11)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) (Rhif 2) 2022

**2.5 Llythyr gan Weinidog yr Economi**

(Tudalennau 12 - 13)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb ysgrifenedig i gwestiynau yn deillio o sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor ar 7 Rhagfyr 2022

## 3 Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

(09.30-11.00) (Tudalennau 14 - 40)

Peter Fox AS, Aelod Cyfrifol

Tyler Walsh, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd

Gareth Rogers, Rheolwr y Bil

Sam Davies, y Gwasanaethau Cyfreithiol

Aled Evans, y Gwasanaethau Cyfreithiol

Elfyn Henderson, Ymchwil y Senedd

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## Egwyl (11.00-11.10)

## 4 Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 2

(11.10-12.10) (Tudalen 41)

Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen, Synnwyr Bwyd Cymru / Ysgrifenyddiaeth Cynghrair Polisi Bwyd Cymru

Simon Wright, Cyfarwyddwr Bwyd a'r Economi Wledig, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant / Perchennog, Wright's Independent Foods Ltd

Yr Athro Terry Marsden, Athro Emeritws mewn Polisi a Chynllunio Amgylcheddol, Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd

**Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth - Synnwyr Bwyd Cymru (Saesneg yn unig)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.10)

## 6 Preifat

(12.10-12.20)

Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Eitem 2.1

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/00758/22

Paul Davies MS
ETRA Committee Chair
SeneddEconomy@senedd.wales

5th January 2023

Dear Paul,

Thank you for your letter of 16th December regarding updated details on the Community Food Strategy.

The Welsh Government committed to 'develop a community food strategy to encourage the production and supply of locally sourced food in Wales', as per the Programme for Government and subsequently the Co-operation Agreement with Plaid Cymru, because we recognise the value of community level activity. We have long standing policies for important aspects of the 'food system' but targeted at mainstream agri-food businesses only. We judged there was a policy gap which warranted a Community Food Strategy.

The initial focus of work has been to explore the scope of 'community food' in Wales in order to identify and consider what might be relevant to developing a strategy. Ultimately the Welsh Government wants a strategy which makes grass roots food initiatives more impactful in communities and can help them play a part in the overall food system.

Initial work has included one to one discussions with diverse stakeholders, conducting two surveys, background research and compiling case studies. It has created a comprehensive picture of the abundance of diverse community food activities being done at grass-roots level and the public's general attitude to community food. From these pieces of work, it is apparent there is a lively and very diverse range of community level activities taking place across Wales, some wholly food focussed, others where food is more incidental to another purpose. Furthermore, many of the activities are contributing in some way to advancing the well-being goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

The provisional conclusion the Welsh Government has reached is the overarching aim of the strategy should be to encourage and empower this diverse grass roots activity and not to impose a particular model. Success lies in activities in communities involving the community and being for the community. Given there is a lot of excellent existing work, and palpable energy and enthusiasm, the Welsh Government's focus is likely to be on what are the barriers and strategic opportunities where action by the Welsh Government or other

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

stakeholders could facilitate the success and expansion of community food initiatives and the creation of new ones. The Welsh Government thinks this can be achieved through existing planning and executive structures, mechanisms, and partners, with no need to create new structures or bodies which would be at a cost to the public purse.

Subject to further policy development work the focus of the Community Food Strategy might be:

- strengthening local leadership capacity and organisation at the grass roots level and through the work of Public Service Boards
- providing national support for common needs such as access to information and advice
- improving the availability of affordable land and linkages with agriculture through piloting the Community Supported Agriculture model
- strengthening and diversifying producer and processor networks and supply chains by extending current work in the food industry into communities, and using the opportunity of public procurement (especially the free primary school meals policy) to create new markets and to raise public awareness of locally produced food.

Our intention in 2023 is to engage more widely with stakeholders in order to co-design solutions. We plan to commission the running of focus groups in order to gather intelligence on the results of our findings, identify any areas of omission and to pin down levers of maximum impact to the public and lowest cost to the public purse, as potential elements of the CFS.

We welcome the involvement of the committee in the development of our ongoing work and would happily consider any report they might wish to bring forward on the topic.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddEconomy@senedd.cymru

6 Ionawr 2023

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â Chronfa Ffyniant Bro (LUF) a Chronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) y DU yn dilyn y datganiad a anfonais at yr Aelodau ar 6 Rhagfyr.

Mae'n destun pryder imi fod yr oedi hir sy'n cael ei greu gan Lywodraeth y DU yn rhoi pwysau aruthrol ar lywodraeth leol ac ar bartneriaid eraill yng Nghymru.

Dim ond ar 5 Rhagfyr y cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod wedi cymeradwyo pedwar cynllun buddsoddi rhanbarthol ar gyfer Cymru o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), gan olygu bod dyraniadau cyllid ar gyfer 2022-23 yn cael eu rhyddhau â llai na phedwar mis o'r flwyddyn ariannol hon ar ôl. Yn y cyfamser, mae'r awdurdodau lleol yn dal i aros am benderfyniadau ar geisiadau o dan ail gylch y Gronfa Ffyniant Bro (LUF) er iddynt gyflwyno'r ceisiadau hynny erbyn y dyddiad cau ar 2 Awst y llynedd.

Mae'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU yn cynnig grant ffurfiol dros gyfnod o sawl blwyddyn o dan y SPF yn achosi cryn ansicrwydd i'r awdurdodau lleol ac i bartneriaid eraill yng Nghymru, ac mae'n peryglu swyddi a phrosiectau. Mae'r ansicrwydd hwnnw'n rhywbeth y gellid ei osgoi.

Roedd Gweinidogion y DU wedi dweud yn y gorffennol mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai gwariant o dan y LUF yn cael ei ganiatáu ar gyfer 2025-26, ond mae'r oedi gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r rhaglen hon yn golygu bellach y gallai'r penderfyniad hwnnw gostio'n ddrud i Gymru. Yn achos y SPF, ni chaniateir i'r awdurdodau lleol wario'u dyraniadau ar ôl mis Mawrth 2025, sy'n golygu bod ganddynt lai na dwy flynedd i gyflawni prosiect SPF ac y bydd angen ad-dalu unrhyw danwariant.

Ers i'r SPF gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2017, mae'r broses ddylunio a darparu wedi bod yn un aneglur a phell i ffwrdd, a gwaethygwyd y sefyllfa honno gan yr oedi a welwyd ar sawl achlysur. Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) wedi methu'r dyddiadau cau a bennwyd ganddi hi ei hun ac mae hynny'n creu pwysau ychwanegol, gan gynnwys costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant. At hynny, nid yw prifysgolion, colegau, busnesau na'r trydydd sector yn cael gwneud ceisiadau uniongyrchol o dan gronfeydd y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

SPF a’r LUF, sy’n golygu bod llawer o'r sectorau hynny bellach yn sôn am ddiswyddiadau ac am gau cynlluniau hanfodol.

Nid yw diffyg cysondeb o ran y ffordd yr eir ati i drafod gyda'n partneriaid yng Nghymru, na’r ffaith nad yw’r model llywodraethu yn un tryloyw, wedi bod o gymorth i’r broses. Rhybuddiodd lleisiau annibynnol, gan gynnwys y Sefydliad Llywodraethu a'r Pwyllgor Dethol ar Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, fod diffygion o ran cydlynu, ac o ran pwrpas a ffocws yn y trefniadau cyllido newydd a bod diffyg ymgysylltu â'r llywodraeth ddatganoledig yn golygu bod perygl o ddyblygu a chanlyniadau a fyddai’n rhoi gwerth gwael am arian.

Ni fydd yr oedi i amserlenni’r SPF a’r LUF yn caniatáu'r amser sydd ei angen i gynllunio a chyflawni prosiectau a fydd yn sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i gymunedau yng Nghymru. Bydd yr angen i ddefnyddio arian yn hwyr yn y flwyddyn yn golygu y bydd llawer o gynigion cryf sy’n seiliedig ar gydweithio yn anhyfyw, wrth i bartneriaid gael eu gorfodi i flaenoriaethu prosiectau lle gellir gwario'n gyflym yn hytrach nag mewn ffordd strategol.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi bod yn weithredol ym maes polisi economaidd rhanbarthol yng Nghymru ar y raddfa hon ers mwy na dau ddegawd, ac rydym yn dal i bryderu nad oes gan DLUHC yr arbenigedd, y rhwydweithiau, y seilwaith na'r profiad i roi'r cronfeydd hyn ar waith yn effeithiol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Mewn cyferbyniad â hynny, roedd Llywodraeth Cymru yn barod bron dwy flynedd yn ôl ym mis Ionawr 2021 i ddechrau ar raglen fuddsoddi ar gyfer y cyfnod ar ôl gadael yr UE. Erbyn hynny, roeddem wedi gweithio'n ddwys gyda'r OECD a'n partneriaid yng Nghymru ac wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn creu'r model cryfaf posib i Gymru – a oedd yn cynnwys rôl i Lywodraeth y DU – fel y nodir yn ein *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru.*

Mae Llywodraeth y DU wedi mynd ati i beryglu rhaglenni allweddol ledled Cymru sy'n hanfodol er mwyn cefnogi cynhyrchiant a thwf, megis Busnes Cymru, prentisiaethau, Banc Datblygu Cymru a'n rhaglenni arloesi.

Nid ydym yn derbyn honiad Llywodraeth y DU bod ei chronfeydd yn golygu llai o fiwrocratiaeth a’u bod yn cynnig mwy o lais i lywodraeth leol yng Nghymru. Heb ddeialog gyson, nid yw llywodraeth leol wedi bod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar benderfyniadau yng Nghymru mewn unrhyw ffyrdd heblaw drwy’r ceisiadau a gyflwynwyd ganddynt, gan olygu bod gan Weinidogion y DU fwy o bŵer dros benderfyniadau lleol heb y mewnbwn sydd ei angen oddi wrth gymunedau lleol.

Mae'r LUF, sy'n gronfa gystadleuol â’r nod o sicrhau tegwch a ffyniant i ranbarthau ledled y DU, yn codi cwestiynau ynghylch a yw'r gronfa honno wir yn seiliedig ar angen. Yn ogystal, nid yw'r diffyg ymgysylltu â’r awdurdodau lleol yn caniatáu i’r awdurdodau lleol hynny hyd yn oed ddweud pa geisiadau y maent am iddynt gael blaenoriaeth, ar sail angen. Yn lle hynny, mae’r penderfyniadau ar ba geisiadau sy’n cael eu dewis yn nwylo Gweinidogion y DU.

Rydym yn dal i bryderu bod y ddwy gronfa hyn, ar y cyfan, yn symud cymorth o'r ardaloedd hynny lle mae'r angen mwyaf, sy'n golygu y bydd cyfanswm llai o ran ei werth yn cael llai o effaith ar adeg o angen anghyffredin. Rwyf wedi nodi mewn datganiadau blaenorol bod Llywodraeth Cymru wedi pwyso ar DLUHC i sicrhau mai’r ffactor hanfodol a ddefnyddir ganddi wrth benderfynu ar ddyraniadau o dan y SPF yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae Multiply yn fater arall sy'n peri pryder oherwydd y gallai arwain at sefyllfa lle y bydd degau o filiynau o bunnoedd yn cael eu gwario'n wael neu heb fod yn cael eu gwario o

gwbl. Mae Llywodraeth y DU eisoes yn atal £15 miliwn o ddyraniad SPF Cymru ar gyfer 2022-23 oherwydd pryderon am wariant llywodraeth leol sy'n deillio o’r oedi cyson ar ran Llywodraeth y DU a'r diffyg hyblygrwydd o fewn y cynllun.

Mae Llywodraeth y DU yn anwybyddu Llywodraeth Cymru a'r Senedd mewn perthynas â’r cronfeydd hyn ac mae hynny’n golygu bod risg o werth gwael am arian, canlyniadau gwael a diffyg eglurder o ran atebolrwydd. Yn benodol, nid yw'n glir sut bydd y prosesau archwilio yn gweithio na sut bydd Aelodau'r Senedd yn gallu dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am faterion sydd, yn amlwg, yn rhai wedi'u datganoli. Un arwydd o’r materion hyn sydd wedi dod i’r amlwg eisoes yw amharodrwydd Llywodraeth y DU i ddeall maint y brys sy’n gysylltiedig â’r problemau yr wyf i a fy nghyd-Weinidogion wedi'u codi gyda chyfres o Weinidogion y DU. Un o’r arwyddion eraill yw methiant Llywodraeth y DU i ymateb mewn ffordd ystyrlon i argymhellion penodol a wnaed yn ddiweddar gan y Pwyllgor Cyllid am drefniadau cyllido ar ôl ymadael â’r UE.

Codais y pwyntiau hyn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar 12 Rhagfyr, fel rhan o'r ymchwiliad y mae’n ei gynnal ar hyn o bryd i Ffyniant Bro. Rwy'n gobeithio hefyd y bydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ystyried y problemau cyllido hyn sy'n cael effaith andwyol ar dwf a swyddi ar adeg pan fo'u hangen fwyaf yng Nghymru.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

11 Ionawr 2023

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl)**

Annwyl Lesley,

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 13 Rhagfyr, cytunwyd i ysgrifennu atoch i fynegi pryder ynghylch y ffaith y cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl) ei osod yn hwyr.

Fel y gwyddoch, er i'r Bil gael ei osod yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mai 2022, dim ond ar 8 Rhagfyr y gwnaeth Llywodraeth Cymru osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu amserlennu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ar 17 Ionawr 2023, mae hyn yn golygu y gofynnwyd i'r Pwyllgor Busnes gytuno ar 16 Ionawr fel y ddyddiad cau ar gyfer adrodd. O gofio toriad y Nadolig, prin oedd yr amser oedd ar gael i'r pwyllgorau perthnasol graffu ar y darpariaethau perthnasol yn y Bil, sef oddeutu pythefnos o fusnes.

Er bod hon o bosibl yn enghraifft eithafol o oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd, nodwn nad yw'n enghraifft unigryw, ac y bu nifer o enghreifftiau diweddar o osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn hwyrach nag sy'n ofynnol yn ôl Rheolau Sefydlog y Senedd, ac yn sylweddol hwyr ar adegau.

Rydym hefyd yn nodi'r diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol penodol hwn ac yn gwerthfawrogi'r anhawster y gall hyn ei

achosi i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd arnom i nodi'r effaith a gaiff y diffyg amser cyfyngedig sydd ar gael yn aml i bwyllgorau graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, gan gynnwys yr effaith ar eu gallu i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau gan randdeiliaid, lle y bo'n briodol, a'u rhaglenni gwaith ehangach. Byddwch yn ymwybodol bod Aelodau wedi codi'r mater hwn droeon yn y Siambr bod nifer o bwyllgorau wedi'i godi.

Byddem yn annog yn eich annog chi, yn eich rôl fel Trefnydd, a Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, i ymrwymo i sicrhau bod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael eu gosod yn brydlon, a bod yr amser sydd ar gael i bwyllgorau'r Senedd graffu arnynt yn ddigon i'w galluogi i wneud y gwaith sydd ei angen yn ddigon manwl.

Rwy'n amgáu copi o'r llythyr hwn at y pwyllgorau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn effeithio arnynt, sef Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Elin Jones

**Y Gwir Anrh Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

12 Ionawr 2023

Annwyl Llywydd,

Ar 13 Rhagfyr 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno. Cafodd ei gyfeirio, gydag 16 Ionawr 2023 fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd.

Ysgrifennaf i fynegi pryderon sylweddol ein Pwyllgor ynghylch yr amserlenni mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Nid yw'n glir i ni pam mai dim ond ar 8 Rhagfyr 2022 y cafodd y Memorandwm, sy'n ymwneud â Bil a gyflwynwyd i Senedd y DU ym mis Mai 2022, ei osod gerbron y Senedd, ac mai 16 Ionawr 2023 yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad. Oherwydd yr amserlen, bu'n amhosibl cynnal unrhyw waith craffu ystyrlon ar oblygiadau deddfwriaethol y Bil i Gymru na'i oblygiadau o ran polisi. Fel y cyfryw, nid yw'r Pwyllgor yn gallu cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn.

Diolch am anfon copi ataf o'ch llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i weld ymateb y Gweinidog, a hoffai ofyn am gopi ohono unwaith y bydd yn dod i law.

Cofion cynnes,


Senedd Cymru
Welsh Parliament

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 2.4

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/3813/22

Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Huw.irranca-davies@senedd.cymru

11 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr, ynglŷn â Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) (Rhif 2) 2022.

Fel y sylwch, dewisais gydsynio i reoliadau Prydain Fawr i ymestyn rhanddirymiadau ar gyfer defnyddio gwm gellan anorganig, cywennau a bwyd protein yng nghynhyrchiad organig. Er mwyn egluro, ein safbwynt cychwyn yw dylai pwerau deddfu ym meysydd datganoledig gael eu harfer gan Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, yn hytrach na Llywodraeth y DU.

Er y gallai'r OS hwn fod wedi cael ei ddatblygu mewn deddfwriaeth Gymreig, yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf mae gwaith ar feysydd eraill wedi cael blaenoriaeth. Byddai dyddiad dod i rym ar gyfer y rheoliadau hyn wedi bod ymhellach yn y dyfodol pe baen nhw wedi eu drafftio yng Nghymru, oherwydd yr angen i ddileu unrhyw anghysondebau wrth ddrafftio rhwng y cenhedloedd a chyfieithu'r drafft yng Nghymru. Fy marn i oedd y gellid defnyddio adnoddau ar faterion deddfwriaethol dybryd eraill lle digwyddodd ymwahanu polisi, sy'n golygu efallai na fu'r OS hwn yn barod cyn i'r rhanddirymiadau blaenorol ddod i ben. Byddai hyn wedi golygu bod rheoliadau gwahanol ar waith yng Nghymru a Lloegr, a fyddai wedi achosi problemau trawsffiniol, gan fod DEFRA yn gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys ar gyfer organig ar ran Gweinidogion Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd gweithredu'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Gynhyrchu Organig yn ffactor a ddylanwadodd ar fy mhenderfyniad i ddarparu caniatâd, gan fod DEFRA wedi dilyn y prosesau a gytunwyd ynddo i hysbysu Llywodraeth Cymru o'u cynlluniau yn iawn a thrafod priodoldeb OS Prydain Fawr.

Cafodd yr OS drafft ei adolygu gan fy swyddogion polisi a chyfreithiol cyn i argymhelliad i gydsynio gael ei roi, er mwyn asesu pa lefel o effaith y byddai'n ei gael. Gofynnon nhw am fân welliannau i'r Memorandwm Esboniadol a ddrafftiwyd gan DEFRA i adlewyrchu sefyllfa Llywodraeth Cymru wrth roi cydsyniad i'r OS hwn. Cyfrannodd hyn at yr amser cynyddol a gymerodd i'ch hysbysu am fy nghaniatâd gan fy mod yn dymuno bod yn sicr bod y newidiadau y gofynnwyd amdanynt wedi'u gwneud . Wrth i'r OS hwn wneud newidiadau a oedd ond yn fân a thechnegol eu natur, ac nid oedd unrhyw ddiddordebau polisi datganoledig sylweddol mewn perygl, roeddwn yn fodlon rhoi fy nghaniatâd iddo gael ei wneud ar sail Prydain Fawr gyfan, yn unol â'r sefyllfa y cytunwyd arni a nodwyd gan y Cabinet ar gyfer defnyddio offerynnau statudol Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig.

Yr eiddoch yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG00011/23

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

12 Ionawr 2023

Annwyl Paul

Yn ystod cyfarfod Craffu Cyffredinol Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 7 Rhagfyr, cytunais i roi ymateb ysgrifenedig i'ch cwestiynau ynghylch ymchwil ac arloesi na lwyddom yn anffodus i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

Yn ein sylfaen arloesi ac ymchwil sefydledig, nod datblygu strategaeth arloesi ynghylch twf a sgiliau ar draws Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y gwaith arloesi yn canolbwyntio ar gyflawni effeithiau yn erbyn ein heriau mwyaf sef poblogaeth iachach, newid hinsawdd a gwytnwch ac adfer yr economi. Gobeithiaf fod yr atebion i'ch cwestiynau yn rhoi'r manylion rydych chi eu hangen.

**Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion i'w hymgynghoriad ar ei Strategaeth Arloesi i Gymru – a oes unrhyw ddiweddariad pellach ynghylch sut y mae fersiwn derfynol y strategaeth yn cael ei datblygu?**

Ar hyn o bryd, mae'r strategaeth yn cael ei hailddrafftio er mwyn ymdrin ag adborth a gafwyd gan randdeiliaid wedi'r broses ymgynghori gyhoeddus a sesiwn bord gron dethol gydag arweinwyr barn allweddol ar arloesi, a chyda mewnbwn Gweinidog yr Economi a'r Aelod Dynodedig o Blaid Cymru.

Canlyniad hyn fydd strwythur syml newydd ar gyfer y strategaeth sy'n cynnwys pedair prif thema gwaith sef yr Economi, Addysg, Iechyd a Llesiant a Hinsawdd a Natur gyda phwyslais trwy gydol y rhain ar gydraddoldeb, diwylliant o arloesi a chydweithio. Mae swyddogion ledled y meysydd polisi yn ailddrafftio'r strategaeth ar hyn o bryd a bwriadwn ei chyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Sut y mae'r Gweinidog yn ymateb i randdeiliaid sy'n dweud bod y strategaeth arloesi ddrafft yn rhy eang, bod ganddi ddiffyg ffocws a diffyg canlyniadau mesuradwy?**

Ni ddylem gyfyngu ein hunain gan y gall Arloesi effeithio ar cyn gymaint o bethau mewn cyn gymaint o feysydd. Dyna'r rheswm felly y mae'r Strategaeth Arloesi yn arddel dull integredig i nodi gweledigaeth ynghylch sut y gall arloesi gefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar draws bob portffolio. Mae adrannau a phortffolios Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r gwaith sydd o'n blaenau ac maen nhw wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella gweithgareddau i gefnogi'n nodau.

Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth, bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei lunio a fydd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r strategaeth ar waith. Rydyn ni'n cydnabod mai ond rhan fach o'r ecosystem arloesi yng Nghymru ydyn ni, fodd bynnag, mae'n bwysig bod pawb yn chwarae eu rhan wrth fwrw ati i gyflawni yn erbyn y weledigaeth.

**A ydych chi'n bwriadu cyhoeddi'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth arloesi hon?**

Rydyn ni wedi ymrwymo i dryloywder llawn ac rydyn ni eisoes wedi cyhoeddi'r canlyniadau ymchwil cynnar, y canlyniadau yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ogystal â dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad. Bydd rhagor o dystiolaeth ategol yn cael ei chyhoeddi gyda'r strategaeth.

**Pa ymrwymiadau penodol o ran cyllid y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud er mwyn cyflawni nodau'r strategaeth arloesi ac ymchwil?**

Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth arloesi, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu a fydd yn nodi ein cynlluniau o ran cyllido, ein cymorth a'n hymrwymiadau yn fanylach.

**Pryd fyddwch chi'n ymateb i'ch ymgynghoriad ar y Strategaeth Arloesi ddrafft, ac a oes modd ichi roi diweddariad ar hynt eich gwaith o ran cyhoeddi'r strategaeth derfynol yn llawn?**

Mewn ymateb i'r adborth a'r dystiolaeth a gafwyd o'r ymgynghoriad, mae swyddogion yn ailddrafftio'r strategaeth ar hyn o bryd. Bwriadwn gyhoeddi'r strategaeth derfynol yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales



**Economy, Trade and Rural Affairs Committee: Food (Wales) Bill**

**Katie Palmer, Food Sense Wales 21.12.22**

1. The Bill brings forward a meaningful framework and accountability measures to enable a proactive approach, determining how we want our food system to work, rather than just dealing with the consequences. We view the Bill as essential **to bring about coherent and comprehensive policy** that will achieve the goal of delivering a food system fit for future generations.

2. As an organisation operating across the Food System - cutting across the third sector and public sector - Food Sense Wales is acutely aware that the absence of a holistic vision and targets for the food system in Wales is hampering the progress that Wales could be making in becoming one of the most sustainable and resilient food nations in the world. The food system could be delivering on population health, food security, net zero and biodiversity targets and fair work. In reality a lack of policy coherence actively prevents this from happening – and could even be making the situation worse. Bringing experts across the Food System together under the banner of a Food Commission, to develop and oversee strategy, would ensure all parts of the system are aiming for the same goal.

3. In particular I would like **to emphasize the opportunities through linking national vision and policy with local strategy and delivery**. At a local level Food Goals could be built into Wellbeing Objectives and delivered through local food plans overseen at a local level by cross sector **Food Partnerships** working in conjunction with Public Service Boards. Examples of where this practice is already developing can be seen through the emerging Network of 7 Sustainable Food Partnerships[1] and in particular Blaenau Gwent Food, Bwyd Sir Gar, Food Cardiff, Monmouthshire Food and Food Vale. Food Cardiff's Good Food Strategy for the city which sets out five food goals - a healthy Cardiff; an environmentally sustainable Cardiff; a thriving local economy; a fair and connected food system; and an empowering food movement. This strategy was co-produced by almost 2,500 individuals and organisations in Cardiff and the results from the Cardiff citizen survey. Cardiff Council and Cardiff & Vale UHB. Cardiff Council became one of the first UK local authorities to publish its own Food Strategy in 2019. Recognising the need to work across portfolios, Cardiff Council have appointed a dedicated Food Officer and host a cross-departmental Steering Group. The Move More, Eat Well Plan led by Cardiff & Vale University Health Board and approved by both PSBs includes a health communities' priority area, committing to the continued development of sustainable food partnerships. **Cardiff's draft Wellbeing Plan** includes "promote healthy, local, and low-carbon food and support Cardiff's bid to become the first Gold Sustainable Food Place in Wales"[2].

   Providing adequate resourcing for training within public bodies and coordination of food partnerships would be key for successful implementation - work which could be progressed through the Community Food Strategy.

   The committee may like to note that Welsh Government are in the process of investing £2.5m into the development of cross sector food partnerships through the Prosperous Futures Team.

4. As part of Food Policy Alliance Cymru we responded to the Food Bill Consultation where detailed responses to all aspects of the Bill were addressed

English - Draft-Food-Wales-Bill-consultation-response_Eng.pdf (foodsensewales.org.uk)

Welsh - Ymateb_BilBwydCymru_Cymraeg.pdf (foodsensewales.org.uk)

We are pleased to see that the Bill has been strengthened on the environmental and education aspects.

---

[1] Sustainable Food Places - foodsensewales.org.uk
[2] Cardiff-PSBs-Draft-Local-Well-being-Plan-2023-2028-English.pdf (cardiffpartnership.co.uk) pg 48